

Cylchlythyr | Circular

Ehangu Mynediad: Canlyniadau'r gynhadledd, ymgynghoriad a chais am wybodaeth am bartneriaethau gydag ysgolion a cholegau

Dyddiad: 18 Mawrth 2015
Cyfeirnod: W15/04HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru; Prifathrawon colegau addysg bellach a ariennir yn uniongyrchol yng Nghymru; Penaethiaid Ehangu Mynediad; cysylltiadau cynllun ffioedd; Cyfarwyddwyr Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd Rheolwyr Ymgynghoriad yn Ehangach a phartion â diddordeb

Ymateb erbyn: **Dydd Llun 20 Ebrill 2015**
Cyswllt: Enw: Jane Johns
Rachel O'Gorman
Ffôn: 029 2068 2219 neu
029 2068 2227
E-bost: jane.johns@hefcw.ac.uk
rachel.ogorman@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canlyniadau cynhadledd genedlaethol ehangu mynediad CCAUC 2014. Mae'n gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad ar raglen weithredol ddrafft ar gyfer ehangu mynediad ac mae'n gofyn am wybodaeth ar y modd y mae prifysgolion yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a cholegau yng Nghymru.

Os bydd angen i chi gael y ddogfen hon mewn fformat amgen, ffoniwch ni ar (029) 2068 2225, neu anfonwch neges e-bost at info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canlyniadau cynhadledd genedlaethol ehangu mynediad CCAUC 2014. Mae'n gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad ar raglen weithredol ddrafft ar gyfer ehangu mynediad ac mae'n gofyn am wybodaeth ar y modd y mae prifysgolion yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a cholegau yng Nghymru.

Cefndir

Cynhadledd CCAUC ar Ehangu Mynediad

2. Roedd cynhadledd genedlaethol CCAUC ar Ehangu Mynediad (Rhagfyr 2014) yn cynnig cyfle am drafodaethau traws-sector, aml-asiantaeth ar bolisiau ac arferion ehangu mynediad. Roedd y gynhadledd yn darparu fforwm i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau nodi ei ddyheadau ar gyfer y sector, a herio'r sector i wneud mwy i ehangu mynediad at addysg uwch.

Rhaglen weithredu Ehangu Mynediad

3. Yn dilyn y gynhadledd Ehangu Mynediad mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni baratoi a chyflwyno Rhaglen Weithredu Ehangu Mynediad. Mae'r Rhaglen Weithredu yn cynnwys archwiliad o berthnasau prifysgolion gydag ysgolion a cholegau, yn unol â'r cais.

Partneriaethau prifysgolion gydag ysgolion/olegau

4. Yn y gynhadledd Ehangu Mynediad pwysleisiodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau pa mor bwysig oedd partneriaethau prifysgol/ysgol. Yn dilyn y gynhadledd rydym wedi cytuno i gynnal archwiliad o bartneriaethau prifysgol/ysgol yng Nghymru ac i gynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda cholegau yng Nghymru.

Ehangu Mynediad – cynhadledd a chanlyniadau

5. Darperir crynodeb o gyflwyniad y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn **Atodiad A**. Roedd y Gweinidog yn cydnabod y cynnydd cadarnhaol sydd wedi ei wneud o ran ehangu mynediad at addysg uwch a derbyniodd gopi o *Ehangu Mynediad: Cyflawni Dros Gymru* sy'n dangos pa mor eang yw'r ddarpariaeth ehangu mynediad yng Nghymru¹.
6. Croesawyd ymrwymiad y Gweinidog i godi uchelgeisiau dysgwyr o bob oedran gan banel cynhadledd traws-sector ac fe fyfyriondd ar yr heriau wrth ehangu mynediad at addysg uwch. Roedd ymatebion y panel yn ystyried cyflwyniadau gan Brif Weithredwr CCAUC, David Blaney; Cyd-gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac

¹ *Ehangu Mynediad: Cyflawni Dros Gymru*, fersiwn [Gymraeg](#) a [Saesneg](#) ar gael.

Economaidd Cymru² Yr Athro Chris Taylor; a Phrifathro ar secondiad i Lywodraeth Cymru, Geraint Rees.

7. Mae rhestr o aelodau'r panel a chrynodeb o'u safbwyntiau ar bolisiau a dulliau gweithredu ehangu mynediad wedi ei atodi fel **Atodiad B**.
8. Cafwyd trafodaeth o gwmpas y bwrdd gyda chynadleddwyr a ystyriodd nifer o gwestiynau i lywio'r gwaith o ddatblygu ehangu mynediad. Mae cwestiynau'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion wedi eu hatodi fel **Atodiad C**. Yn ystod y sesiwn codwyd materion yn cynnwys: pwysigrwydd dulliau gweithredu pob oedran; dulliau cyflenwi amrywiol; Grwpiau blaenoriaeth Ehangu Mynediad; fframweithiau cydweithredol effeithiol; hyrwyddo addysg uwch; dysgu gydol oes a sgiliau lefel uwch; gwerthuso a mesurau; a chyllid.

Ymgynghoriad ar raglen weithredu Ehangu Mynediad

9. Yn wyneb y gynhadledd Ehangu Mynediad, rydym wedi drafftio rhaglen weithredu sy'n ystyried ein cyfyngiadau cyllid presennol. Bwrriedir y bydd yn rhaglen lefel uwch ac yn ymateb i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys fel y nodwyd yn y gynhadledd.
10. Bydd rhaglen weithredu ehangu mynediad yn ategu *Ymagwedd Strategol CCAUC at Ehangu Mynediad* ac yn disgrifio gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ehangu mynediad.³
11. I lywio datblygu'r rhaglen a'i rhoi ar waith byddwn yn:
 - i. ystyried canlyniadau gwaith wedi ei gyllido a wnaed gan Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru ar effaith ehangu mynediad pan fyddant yn cael eu cyhoeddi;
 - ii. cyhoeddi gwerthusiad o Strategaethau Ymgynghoriad yn Ehangach;
 - iii. casglu tystiolaeth ar gyfradd y cyllid "ffioedd myfyrwyr" sydd wedi ei glustnodi i ehangu mynediad a gweithgaredd cyfranogi gan ysgoloriaethau a bwrsariaethau i weithgareddau partneriaeth ysgol ac ymgysylltu, yn ogystal â lleoli myfyrwyr a pharatoi ar gyfer cyflogaeth⁴; a
 - iv. archwilio partneriaethau ledled y sector rhwng prifysgolion a cholegau, fel sy'n cael ei nodi isod.
12. Mae'r rhaglen weithredu drafft wedi ei hatodi fel **Atodiad D**.
13. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddem yn croesawu cyngor ar ddatblygu'r rhaglen yn gyffredinol, gan gynnwys mewn perthynas â materion cydraddoldeb.

² [Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru](#)

³ [Ymagwedd Strategol CCAUC at Ehangu Mynediad 2013/14 i 2015/16](#)

⁴ Gweler cylchlythyr [W15/03HE](#)

14. Yn benodol, ond nid yn gyfyngedig, byddai'n ddefnyddiol i dderbyn cyngor ar:

- Faint fydd y rhaglen weithredu'n cyfrannu at ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ehangu mynediad. Pe gellid gwneud mwy, rhwch wybod i ni.
- Faint fydd y gweithredu a nodwyd yn cefnogi'r sector i wella ehangu mynediad at gyfleoedd addysg uwch a'n blaenoriaethau, fel sy'n cael eu nodi yn thema ehangu mynediad ein Strategaeth Gorfforaethol⁵ ac Ymagwedd Strategol CCAUC at Ehangu Mynediad. Os oes bylchau yn y rhaglen, rhwch wybod i ni.
- Yn benodol mewn perthynas â phartneriaethau prifysgolion gydag ysgolion a cholegau, oes yna ddatblygiadau arloesol, cost isel/dim cost y dylem eu hystyried i wella mynd i addysg uwch, drwy addysg uwch a thu hwnt iddi?
- A oes dulliau gweithredu arloesol y dylem eu hystyried, gan roi ystyriaeth i gyfyngiadau o ran adnoddau ac, os felly, sut allwn ni eu rhoi ar waith a'u monitro?
- A oes unrhyw agweddau ar y rhaglen, neu ar roi'r rhaglen ar waith, a allai gael effaith negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol i unigolion gyda nodweddion gwarchoddedig neu unigolion sydd ddim yn cael cynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch⁶?
- Oes yna unrhyw faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, cynaliadwyedd neu faterion cyfrwng Cymraeg y dylid eu hystyried ymhellach wrth ddatblygu drafft o'r rhaglen weithredu?

Ymatebion i'r ymgynghoriad

15. Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad at Rachel O'Gorman rachel.ogorman@ccauc erbyn **dydd Llun 20 Ebrill 2015**, yn defnyddio'r templed sydd wedi ei atodi fel **Atodiad E**.
16. Byddwn yn cyflwyno'r rhaglen weithredu ddiwygiedig i Lywodraeth Cymru erbyn 1 Mehefin 2015, yn unol â'r cais.

Partneriaethau prifysgolion gydag ysgolion a cholegau

17. Bydd yr archwiliad o berthnasau partneriaeth prifysgolion gydag ysgolion a cholegau yn dangos maint gwaith rhanbarthol ehangu mynediad y sector gydag ysgolion a cholegau yng Nghymru, gan gynnwys gweithio trwy'r

⁵ [Thema ehangu mynediad Strategaeth Gorfforaethol CCAUC](#), t. 11

⁶ Nodweddion gwarchoddedig yw: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol.

Partneriaethau Ymgynraedd yn Ehangach ac Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd.

18. Mae'r archwiliad yn canolbwyntio ar berthnasau ehangu mynediad hirdymor yn hytrach nag ymyriadau 'un-tro' fel postio defnyddiau marchnata neu ddefnyddiau derbyn neu weithgaredd recriwtio. Dylai'r archwiliad adlewyrchu ymgysylltu sylweddol, parhaus gydag ysgolion a cholegau trwy weithgareddau, i bobl o bob oedran, fel mentora neu gyrsiau blasu byr.
19. Dylid cyflwyno un ymateb archwiliad ar gyfer pob prifysgol. Yn ogystal, rydym yn disgwyl y bydd Partneriaethau Ymgynraedd yn Ehangach ac Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd eisiau ymateb gan ddefnyddio templedi sy'n benodol i raglen gan eu bod yn derbyn cyllid ar wahân.
20. Trwy'r archwiliad rydym yn anelu at ddangos faint mae prifysgolion yn ymgysylltu â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel: Ysgolion Her Ysgolion Cymru⁷, ysgolion a cholegau gyda niferoedd uchel o ddisgyblion Cymunedau yn Gyntaf/mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a/neu mewn ardaloedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) neu niferoedd uchel o ddysgwyr MALIC⁸. Mae angen cyfeirio at y blaenoriaethau hyn yn y templed ymateb.
21. Darperir templed yn **Atodiad F**. Cyflwynwch y templed wedi ei gwblhau erbyn **20 Ebrill 2015** i **Rachel O'Gorman** yn fformat Word, neu gan atodi fersiwn Word ato.

Amserlen

22. Mae'r amserlen fel a ganlyn:

Cam gweithredu	Cyflwyno
Ymatebion i raglen weithredu Ehangu Mynediad i'w cyflwyno i CCAUC	20 Ebrill 2015
CCAUC i derfynu'r rhaglen weithredu a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru	1 Mehefin 2015
Ymatebion i'r archwiliad prifysgolion/ysgolion/ colegau i'w cyflwyno i CCAUC	20 Ebrill 2015
CCAUC i gyflwyno'r adroddiad archwiliad i Lywodraeth Cymru	1 Mehefin 2015

⁷ Her Ysgolion Cymru [Ysgolion Llwybrau Llwyddiant](#)

⁸ Bydd prifysgolion, partneriaethau etc yn adnabod yr ysgolion/colegau gyda nifer y dysgwyr Cymunedau yn Gyntaf, MALIC sy'n uwch na'r cyfartaledd. Rydym yn sylweddoli y gall y ganran newid o ardal i ardal.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

23. Byddwn yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. Byddwn hefyd yn ystyried effaith polisiâu ar yr iaith Gymraeg a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector AU yng Nghymru. Cysylltwch â rachel.ogorman@ccauc.ac.uk am fwy o wybodaeth am Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb.
24. Mae cyfrifoldeb tebyg arnoch chi fel partneriaid sefydliadau addysg uwch i asesu effaith eich cynigion er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb.

Gwybodaeth bellach / ymatebion

25. Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Rachel O'Gorman (ffôn 029 2068 2227; e-bost rachel.ogorman@hefcw.ac.uk). Cyflwynwch y templed/templidi i Rachel erbyn **20 Ebrill 2015**.